LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

**Eitem: 7**

**Teitl:** Strategaeth Rheoli Risg Llais

| | |
|---|---|
| **Gweithredu / Action required** | I'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Bwrdd |
| **Amseru / Timing** | Brys |
| **Argymhelliad / Recommendation** | Bod y Bwrdd yn cytuno ar Strategaeth Rheoli Risg Llais. |
| **Risg / Risk** | Y Strategaeth hon fydd y dull rheoli risg trosfwaol ar gyfer Llais a bydd yn arwain gweithgaredd rheoli risg y sefydliad.<br><br>Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am adolygu a chadarnhau'r Strategaeth Rheoli Risg ac mae'n arfer da bod hyn yn cael ei adolygu'n flynyddol.<br><br>Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn asesu allbynnau'r adolygiadau ac yn cynghori'r Bwrdd ar unrhyw newidiadau neu fabwysiadu strategaeth newydd. |
| **Cyllid / Finance** | Nid oes goblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, ond gallai cynnwys yr adroddiad fod â rhai agweddau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu ariannol Llais<br>a chysylltiadau â'r trefniadau llywodraethu ehangach. |
| **Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective** | Mae'r gwaith hwn yn ymwneud yn arbennig ag amcan 5 - sef tyfu a gwella fel sefydliad a bod yn sefydliad y gellir ymddiried ynddo sy'n cael ei werthfawrogi gan bawb.<br><br>Bydd trefniadau llywodraethu da yn alluogwr pwysig ar gyfer gweithrediad llwyddiannus a chyflawniad pob agwedd o waith Llais ac felly, cyflawni pob amcan allweddol. |

| | |
|---|---|
| **Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant / Equity, Diversity & Inclusion** | Nid yw'r adroddiad hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar y maes hwn. |
| **Cyfathrebu / Communications** | Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar:<br>**Mewnol:** ein pobl ☒<br>**Allanol:** ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid ☒<br>**Allanol:** enw da ein sefydliad ☒ |
| **Cymeradwyaeth / Approval/Clearance** | Mae'r atodiad i'r papur hwn wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr. |
| **Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous discussions/decisions** | Cymeradwyodd y Bwrdd strategaeth rheoli risg gyntaf ym mis Mawrth 2023. Fel rhan o'r gweithgaredd adolygu llywodraethu parhaus , gofynnwyd am adolygiad, a pharatoi strategaeth risg a pholisi wedi'u diweddaru ar gyfer y Bwrdd. |
| **Awdur/Cyflwyno / Author/Presenting** | Richard Bevan, Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd |
| **Dyddiad / Date** | 17 Mawrth 2025 |

**Cefndir / Background**

Fel y soniwyd uchod, mabwysiadodd Bwrdd Llais strategaeth rheoli risg ym mis Mawrth 2023. Fel rhan o'r gwaith adolygu llywodraethu a gomisiynwyd yn gynharach yn y flwyddyn, gofynnwyd am gynnal adolygiad o'r dull risg wedi'i alinio â datblygiadau a newidiadau eraill yn y fframwaith llywodraethu a sicrwydd.

Ymgymerwyd â gwaith adolygu gyda rhanbarthau a swyddogaethau corfforaethol a chynhaliwyd trafodaethau o fewn Tîm Arwain. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnal nifer o drafodaethau datblygu ar reoli risg, ein hymagwedd a sut y mae'n ei ddefnyddio yn y sefydliad gyda chyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r ddogfen strategaeth rheoli risg ddiwygiedig hon yn nodi'r dull rheoli risg diwygiedig ac adolygedig arfaethedig ar gyfer Llais ac yn cynnig bod Llais dros amser yn symud tuag at fodelau sydd hefyd yn cofleidio a defnyddio fframweithiau sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n canolbwyntio ar weithredu cadarnhaol i gefnogi Llais i gyflawni ei

nodau ac amcanion cytûn.

Gall rheoli risg yn dda wella cynllunio strategol a blaenoriaethu, cynorthwyo i gyflawni amcanion a chryfhau ein gallu i fod yn ystwyth ac i ymateb i'r heriau a wynebwn.

Gall alluogi Llais i ddeall yn well y risg bosibl o beidio â chyflawni ein hamcanion a nodau datganedig a chynorthwyo i ganfod ffyrdd i Llais gynllunio ac ymateb yn gadarnhaol ac yn briodol.

**Manylion / Detail**

Gofynnir i'r Bwrdd ystyried y ddogfen ddiwygiedig i'w chymeradwyo. Yn dilyn ei gymeradwyaeth gan y Bwrdd mewn Sesiwn Datblygu Bwrdd blaenorol a chyngor gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Tîm Arwain wedi bod yn gefnogol i'r cyfeiriad teithio ond wedi cydnabod a chynghori bod angen sefydlu rhagor o waith i sicrhau bod y system rheoli risg bresennol yn gweithio'n effeithiol cyn symud ymlaen â system newydd.

Felly, mae dull mwy graddol o weithredu'r trefniadau newydd wedi'i awgrymu gyda phontio dros y ddwy flynedd nesaf i ddull newydd sy'n seiliedig ar gryfderau. Bydd trafodaethau datblygu ac ymgysylltu y tu mewn a thu allan i Llais yn parhau i brofi'r cynigion a meithrin dealltwriaeth i'w gweithredu'n llawn gyda gweithdy wedi'i gynllunio yn hydref 2025.

Bydd gwaith pellach yn parhau i gael ei wneud ar symleiddio a mireinio'r drefn bresennol er mwyn sicrhau bod hyn yn gweithio mor effeithiol â phosibl, a gall pwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd ei hun gael y wybodaeth a'r sicrwydd sydd ei angen arnynt ynglŷn â gweithgaredd strategol a gweithredol y sefydliad a pherfformiad cyffredinol Llais wrth gwrdd â'i amcanion a nodau datganedig.

Mae'r gwaith hwn hefyd yn gysylltiedig â chyflwyno'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd newydd.